
Cyngor Ieuenctid Cymru
Wales Youth Agency



# Siarter Hawliau Pobl Ifanc



# Young People's Charter for Entitlement



# SIARTER HAWLIAU POBL IFAINC

1. Dylai pobl ifanc gael mynediad i ystod o gyfleoedd a gweithgareddau sydd yn unol a'r rhai sydd ar gael yn y gymdeithas gyfoes.

2. Dylai pobl ifanc gael rhan yn y gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch beth sy'n digwydd yn eu mudiadau hwy.

3. Dylai'r holl pobl ifainc mewn ardal gael mynediad i wasanaeth sydd yn cymryd i ystyriaeth eu hamrediad anghenion amrywiol.

4. Dylai pobl ifainc gael mynediad i ystod o ddarpariaeth a gwasanaethau a ddylai fod ar gael ar adegau sydd yn gyfleus iddynt hwy. Yn enwedig gyda'r nos, ar y penwythnos ac yn ystod gwyliau.

5. Dylai pobl ifainc gael mynediad i wasanaethau cynghori a gwybodaeth.

6. Mae gan bobl ifainc hawl i wasanaethau sy'n cael eu datblygu yn unol a safonau a ddiffinnir gan ddeddfwriaeth neu gonfesiwn.

7. Dylai pobl ifainc gael cyfarwyddiadur o'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal a dylid hysbysebu'r gwasanaethau mewn mannau a thrwy gyfryngau sy'n cael eu defnyddio gan bobl ifanc.

8. Dylai pobl ifainc sy'n cael problemau allu cael mynediad i wasanaethau cefnogol trwy'r gwasanaeth ieuenctid.

9. Mae gan bobl ifainc hwal i weithio gydag oedolion sydd wedi'u hyfforddi mewn gwaith ieuenctid ac sydd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion a wneir arnynt gan ddeddfwriaeth neu gonfesiwn.

# CYFLWYNIAD

Mae Adeiladu'r Dyfodol - cyhoeddiad Cyngor Ieuenctid Cymru ar gyfer yr awdurdodau unedol newydd - yn argymell fod yr awdurdodau newydd yn gweithio gyda phobl ifainc i ddatblygu gwasanaethau a ffurfio siarter hawliau pobl ifainc. Hynny yw, eu hawliau i wasanaethau.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi enghraifft o siarter hawliau, Fe'i datblygwyd drwy gyfrwng gweithdai gyda thros 200 o bobl ifainc o wahanol fudiadau ledled Cymru. I'r graddau hynny mae'n gynrychioliadol o farn y bob! ifainc y buom yn gweithio gyda hwy.

Defnyddiwch y Siarter yn eich gwaith gyda phobl ifainc os gwelwch yn dda. Nid yw'n ddatganiad pendant - mae wedi'i fwriadu ar gyfer trafod gyda phobl ifainc ac felly mae'n fan cychwyn ar gyfer gwneud newidiadau er mwyn datblygu Siarter Hawliau sydd yn berthnasol i bobl ifainc mewn gwahanol feysydd neu fudiadau.

*HAWL*

Mae'r cysyniad o hawl yn siliedig ar y rhagdybiaeth ei bod yn iawn i bob person ifanc gael derbyn cyngor, cefnogaeth, gwybodaeth, gweith-gareddau ac ati o fewn fframwaith addysg anffurfiol.

Mae'r cysyniad o hawl yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau digonpl ar gyfer pobl ifainc ar gael, naill ai trwy ddarpariaeth uniongyrchol neu drwy ddatblygiadau mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol neu ddarparwyr eraill.

Mae'r ddyletswydd hon i'w chanfod mewn deddfwiaeth a chonfesiynau diweddar.

*Deddf Plant (1992)* yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gefnogi datblygiad plant a phobl ifainc.

*Deddf Addysg Bellach ac Uwch (1992)* yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaeth ieuenctid digonol ar gael ar gyfer pobl ifainc.

*Confesiwn Hawliau'r Plentyn y Cenedlaethol Unedig* (gan gynnwys pobl ifainc hyd at 18 oed) yn darparu canllawiau i sicrhau bod ein deddfau a'r modd yr ydym yn trin pobl ifainc yn cyrraedd isafswm o safon.

Felly mae gan bob! ifainc hawl i wasanaethau sydd yn ychwanegu at eu datblygiad ac sydd yn unol a safonau sydd wedi'u diffinio yn glir.

Mae Confesiwn Hawliau'r Plentyn, y Cenhedloedd Unedig, yn argymell y dylai pobl ifainc gael hawl i ddweud beth maent yn ei feddwl am unrhyw beth sy'n effeithio arnynt hwy. Mae'n rhaid i gyrff swyddogol wrando'n ofalus ar yr hyn y maent yn ei ddweud.

Mabwysiadwyd y confensiwn yn swyddogol gan Lywodraeth Prydain ym 1991 felly mae'n amlwg fod gan bobl ifainc hawl i gael llais yn natblygiad gwasanethau sydd wedi'u cynllunio ar eu cyfer hwy.

*DATBLYGU SIARTER HAWLIAU*

Roedd y broses o ddatblygu'r Siarter hon yn golygu gweithio gyda phobl ifainc i'w galluogi i ddweud pa wasanaethau y teimlent oedd yn bwysig iddynt hwy. Gwnaed hyn mewn gweithdai answyddogol gan ddefnyddio dulliau amrywiol, yn Waith Celf, Sesiynau Chwydu Syniadau a Thrafodaethau.

Wrth ddatblygu'r fersiwn terfynol hwn, buom yn ymgynghori a phobl ifainc o amrywiol gefndiroedd diwylliannol ac o wahanol alluoedd, a hefyd fe gymerodd pobl ifainc o sefydliadau amrywiol ran y broses. (Gweler Atodiad 1).

Mae'n bwysig cofio nad grwp unffurf mo pobl ifainc ac y gall eu hanghenion a'u dyheadau amrywio yn unol a'u Rhyw, eu Gallu, eu Dosbarth, eu Diwylliant, eu Crefydd a'u Rhywioldeb. Felly mae'n bwysig fod traws-doriad o bobl ifainc yn cymryd rhan yn y broses o lunio Siarter Hawliau. Mae gan Cymru Gyfoes boblogaeth amrywiol ac fe ddylid adlewyrchu hynny pan ddatblygir gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc.

## DEFNYDDIO'R SIARTER HAWLIAU

Mae'r Siarter yn cynnwys naw pwynt, bob un wedi ei gynhyrchu ar ddalen A4.

Y bwriad yw defnyddio pob un o'r naw pwynt i ysgogi trafodaeth gyda phobl ifanc er mwyn i fudiadau drefnu eu siarteri eu hunain, os dyna eu dymuniad.

Gellid sbarduno trafodaeth ar bob lefel o fewn mudiad, a byddai'n ffordd o sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei lleisio.

Ar 51 datblygu siarter hawliau, gall mudiadau ddefnyddio eu siarter i gynllunio, monitro ac adolygu gwaith gyda phobl ifanc dros gyfnod o amser.

Er enghraifft, ddwy flynedd yn 61, datblygodd Glwb Ieuenctid Glanaman Siarter mewn ymgynghoriad gydag aelodau'r clwb. Ers hynny, mae'r siarter wedi bod yn gyfrwng i hysbysu aelodau newydd o'u hawliau ac fe'i defnyddiwyd gan weithwyr i gynllunio ar gyfer gweithgareddau'r clwb a'u monitro (gweler Atodiad 2).

Mae Clwb Ieuenctid Glanaman erbyn hyn, fodd bynnag, yn cydnabod bob angen adolygu'r siarter gyda'i aelodau presennol, er mwyn iddo fod yn broses barhaus sy'n berchen i bobl ifanc a gweithwyr y clwb.

1. *Dylai pobl ifainc gael mynediad i ystod o gyfleoedd a gweithgareddau sydd yn unol a'r rhai sydd ar gael yn y gymdeithas gyfoes.*

Dylai'r cyfleoedd gynnwys gweithgareddau yn y categori'au a ganlyn:

- Gweithgareddau cymdeithasol e.e. barbeciw, disco ac ati.

- Cyfleoedd ar gyfer Datblygiad Personol.

- Teithio (Rhyngwladol) a Thripiau, Cyfle i gyfarfod pobl ifainc o ardaloedd eraill.

- Cyrsiau/Gweithgareddau i gael bias ar bethau/Digwyddiadau
  eg. Gweithgareddau Awyr Agored
  Gweithdai gemau cyfrifiadurol.

  Cystadleuthau
  eg. Gemau Cyfrifiadurol

  Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant
  eg. Cofnodion Cyrhaeddiad
  Hyfforddiant Aelodau Hyn

- Canolbwyntio ar Faterion Penodol
  eg. Iechyd, Cyffuriau, Alcohol

- Creadigol
  eg. Cerdd, Drama, Celfyddyd, Fideo

  Cymryd Rhan yn y Gymuned
  eg. Gwaith Cymunedol

  Dinasyddiaeth: galluogi pobl ifainc i ddeall prosesau democrataidd a dylanwadu'r hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau.

2. *Dylai pobl ifainc gael rhan yn y gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch beth sy'n digwydd yn eu mudiadau hwy. Dylent gael cyfle i gynnal gweithgareddau dan arweiniad cyfoedion, gydag oedolion mewn rdl gefnogol.*

Mae amryw o wahanol ffyrdd y gall pobl ifainc gymryd rhan yn y gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch datblygiad eu clwb, eu prosiect neu eu mudiad.

Yn eu plith y mae:

- Pwyllgorau/Fforymau Aelodau
- Grwpiau Diddordebau Arbennig
- Cynghorau/Fforymau leuenctid Ardal
- Ymgynhori Anffurfiol (Ymchwil y Farchnad)
- Cynadleddau/Gweithdai

Nid yw'r un o'r modelau hyn yn cau yr un o'r lleill allan, ac yn ddelfrydol dylid mabwysiadu cyfuniad o'r gwahanol dulliau.

3. *Dylai'r holl bobl ifainc mewn ardal gael mynediad i wasanaeth sydd yn cymryd i ystyriaeth eu hamrediad anghenion amrywiol. Dylai'r gwasanaethau:*

- fod yn lleol, er mwyn i bobl ifainc gae! cyfarfod pobl ifainc eraill sy'n byw yn yr un ardal.

- fod yn rhai hawdd eu cyrraedd ar gyfer pobl sydd ag amrediad o wahanol alluoedd.

- gymryd i ystyriaeth wahaniaethau diwylliannol yn yr ardal.

- gynnig cydraddoldeb iaith.

4. *Dylai pobl ifainc gael mynediad i ystod o ddarpariaeth a gwasnaethau a ddylai fod ar gael ar adegau sydd yn gyfleus iddynt hwy. Yn enwedig gyda'r nos, ar y penwythnos ac yn ystod gwyliau.*

Dylai'r gwasanaeth ieuenctid gynnig amrediad o amgylchiadau Me bydd pobl ifainc:

- yn teimlo'n gyfforddus a diogel

- yn gallu bod yn anffurfiol

  yn gallu cymysgu a'u ffrindiau

- yn gallu bod yn hyderus am y cyngor a'r wybodaeth y maent yn eu derbyn.

Dylai darpariaeth ar gyfer pobl ifainc fod ar gael ar adegau sydd yn gyfleus i bobl ifainc. Yn enwedig gyda'r nos, ar y penwythnos ac yn ystod gwyliau.

Dylai ystod y ddarpariaeth a adlewyrchu'r datganiad ynghylch y cwricwlwm gwaith ieuenctid i Gymru.

Mae ar bobl ifainc angen gweithio gydag oedolion nad ydynt yn eu barnu ac sydd yn cynnig parch ac agwedd gadarnhaoi tuag atynt, yn ddiamod.

5. *Dylai pobl ifainc gael mynediad i wasanaethau cynghori a gwybodaeth.*

Dylai gwasanaethau Gwybodaeth a Chynghori fod ar gael yn rhwydd, ac yn hawdd i bobl ifainc eu cyrraedd. Dylai gwybodaeth fod ar gael am faterion megis:

- Tai
- Budd-daliadau
- Cyngor diduedd am gyfleoedd addysgol
- Perthynas ag eraill
- Iechyd
- Rhieni
- Y Gyfraith
- Materion y Dydd
- Cynllunio Teulu

Dylai cyfleusterau cwnsela fod ar gael mewn canolfannau gwybodaeth i bobl ifainc. Dylai cymorth a chefnogaeth fod ar gael i bobl ifainc sydd eu hangen.

Dylai'r canolfannau fod yn agored yr adegau sydd yn gyfleus i bobl ifainc. Dylai hyn gynnwys o leiaf un noswaith yn yr wythnos ac un diwrnod yn ystod y penwythnos. Dylai cyfleusterau cwnsela dros y ffon fod ar gael hefyd.

Dylai cyfle fod ar gael i bobl ifainc allu datblygu'r sgiliau angenrheidiol i fyw yn annibynnol e.e..

- Cyllidebu
- Tasgau'r Ty

6. *Mae gan bobl ifainc hawl i wasanaethau sy'n cael eu datblygu yn unol a safonau a ddiffinnir gan ddeddfwriaeth neu gonfensiwn.*

e.g. Y Deddf Plant

Deddf Diogelwch a Glendid Bwyd

Confensiwn Hawliau'r Plentyn, y Cenedleodd Unedig

Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

Deddf Addysg 1944

I

Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru

7, *Dylai pobl ifainc gael cyfarwyddiadur o'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal a dylid hysbysebu'r gwasanaethau mewn mannau a thrwy gyfryngau sy'n cael eu defnyddio gan bobl ifainc.*

Dylid hysbysebu gwasanaethau trwy gyfryngau amrywiol, ond yn enwedig fe ddylid defnyddio.

- Radio Lleol
- Papurau Newydd
- Colegau
- Ysgolion

8. *Dylai pobl ifainc cael problemau allu cael mynediad i wasanaethau cefnogol trwy'r gwasanaeth ieuenctid.*

Dylai'r gwasanaeth ieuenctid rwydweithio gyda mudiadau eraill er mwyn datblygu gwasanaethau cefnogol ar gyfer pobl ifainc sy'n wynebu problemau. Ymhlith y mudiadau hyn y mae:

Cymorth i Ddioddefwyr

- Prosiectau HIV/AIDS

- Asiantaethau Cynghori am Gyffuriau gan gynnwys gwasanaethau cyfnewid nodwyddau, condoms am ddim ac ymwybyddiaeth o gyffuriau.

- Canolfannau i fetched ifainc, yn darparu cyngor, cwnsela, profion beichiogrwydd, cyngor am atal cenhedlu a gweithdai.

- Cynllunio teulu, wedi'i anelu at ferched ifainc a dynion ifainc.

- Dylai peiriannau condoms fod ar gael mewn canolfannau i bobl ifainc.

9. *Mae gan bobl ifainc hawl i weithio gydag oedolion sydd wedi'u hyfforddi mewn gwaith ieuenctid ac sydd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion a wneir arnynt gan ddeddfwriaeth neu gonfesfwn.*

Mae angen i bobl sydd yn gweithio gyda phobl ifainc:

- fod wedi cymryd rhan mewn Hyfforddiant sydd yn briodol i'w lefelau a'u rol.

- fod yn ymwybodol o'r gofynion y mae deddfwriaeth briodol yn eu gosod arnynt.

- beidio a barnu

- fod a dull gweithredu sydd yn ei gwneud yn hawdd i bob! gymryd rhan.

*ATODIAD 1*

Cymerodd pobl ifainc o'r mudiadau a ganlyn ran yn y gwaith o ddatblygu'r siarter hawliau.

Grwp Hamdden Integredig Cwm Rhymni

Gateway Gogledd Cymru

Gateway Dyfed

Gwasanaeth Ieuenctid De Clwyd

Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

Canolfan Pobl Ifainc Cwm Bran

Clwb Ieuenctid Llaneirwg

The Powerhouse, Llanedeyrn

Checkers, Aberdar

Clwb Bechgyn a Genethod Treharris

Gweithred Ieuenctid Gwent

Cyswllt Ieuenctid Cymru

Y Groes Goch

Fforwm Ieuenctid Cymru

PHAB (Cymru)

YMCA

Clybiau'r Ffermwyr Ifainc

Clwb Ieuenctid Llwynhendy, Llanelli

Clwb Ieuenctid Glanaman

Ambiwlans Sant Ioan

Prosiect Pobl Ifainc y Rhyl

Clwb Ieuenctid Pentwyn, Caerdydd

Cartref Cenedlaethol Plant, Aberdar

N.C.H. Achos i Slant

*ATODIAD 2*

# S1ARTER CLWB IEUENCTID

Bydd aelodau Ciwb leuenctid Glanaman yn cael:-

| | |
|---|---|
| Cyfle | - I gwrdd a phobl ifanc eraill.<br>- I deithio, yn y wlad hon a thramor.<br>- I gymryd rhan mewn cystadleuaeth. |
| Gweithgareddau | - O fewn y Clwb.<br>- Tu allan i'r Clwb. |
| Gofod | - I ddilyn eu diddordeb eu hunain.<br>- I beidio a chael eu "hasio". |
| Amser | - I gaei lleisio eu barn.<br>- I dderbyn cyngor a gwybodaeth |
| Parch | - Iddyn nhw eu hunain fel pobl<br>- I'w heiddio.<br>- I'w syniadau. |
| Cyfleustra Da | - Cerddoriaeth, Teledu, Bar Coffi a mwy. |
| Cyfrifoldeb | - I fod yn rhan o'r broses o lunio penderfyniadau. |
| Ymddiriedaeth | - Pwy bynnag ydyn nhw. |